## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## Y NEWYDDION DIWEDDARAF AR GYNNYDD MENTER URBAN II GORLLEWIN WRECSAM Y GYMUNED EWROPEAIDD

### Diben

1. Amcan y papur hwn yw darparu adroddiad i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar Fenter URBAN II Gorllewin Wrecsam y Gymuned Ewropeaidd. Mae cyfanswm o unarddeg rhaglen ledled y DU ac maent i gyd yn cael eu cyllido gan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd.

### Cefndir

2. Mae crynodeb byr o raglen Gorllewin Wrecsam yn amgaeëdig (Atodiad 1). Derbyniwyd y ddogfen raglen yn ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 21 Mai 2001 gyda'r cyfnod trafod pum mis arferol yn dilyn. Datblygwyd y ddogfen gan y tîm rhaglen lleol, gan gydweithio'n agos â'r gymuned gyda chymorth swyddogion y Cynulliad. Cynhaliwyd un cyfarfod ym Mrwsel i drafod newidiadau a oedd yn bennaf o natur dechnegol gan fod y CE wedi cymeradwyo'r strategaeth a'r blaenoriaethau yn arbennig fel rhai a wyntyllwyd yn drwyadl. Disgwylir cymeradwyaeth ffurfiol gan y CE yn ystod yr wythnosau nesaf.
3. Mae'n debygol mai Gorllewin Wrecsam fydd y gyntaf o raglenni'r DU i dderbyn cymeradwyaeth a dylid nodi mai dim ond yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn y mae rhaglenni aelod-wladwriaethau eraill wedi dechrau cael eu cymeradwyo. Mae hyn yn glod i'r bartneriaeth am wneud i fyny am amser a gollwyd, a ddigwyddodd o ganlyniad i anghytundebau rhwng y DU a'r CE ar nifer rhaglenni'r DU (nid oedd rhaglen Gorllewin Wrecsam ei hun fyth o dan fygythiad). Pan dderbynnir cymeradwyaeth ffurfiol, cyflwynir datganiad i'r wasg drafft.
4. Cynhaliodd Pwyllgor cysgodol Monitro'r Rhaglen, o dan gadeiryddiaeth Karen Sinclair AC, ei gyfarfod cyntaf ar 29 Hydref. Mae'r rhestr aelodaeth yn amgaeëdig yn Atodiad 2 a gall y pwyllgor hwn ddatblygu i fod yn bwyllgor monitro ffurfiol pan gaiff y ddogfen raglen ei chymeradwyo gan y CE. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Rhagfyr.

### Y Camau Nesaf

5. O ddyddiad cymeradwyaeth y rhaglen, bydd gan y bartneriaeth dri mis i gynhyrchu Atodlen y Rhaglen (PC) a fydd yn rhoi mwy o fanylion ar y mathau o weithgareddau gaiff eu cefnogi ac yn dilyn hynny bydd cynllun gweithredu lleol yn cael ei gynhyrchu. Bydd angen i'r ddwy ddogfen gael cymeradwyaeth Pwyllgor Monitro'r Bartneriaeth (PMC) ond nid y CE, a bydd yn destun adolygiad blynyddol. Er mwyn goleuo'r dogfennau hyn, mae archwiliad cynhwysfawr o anghenion cyflogwyr a chymunedau ar waith ar hyn o bryd, ynghyd ag arolwg ieuenctid, ar gyfer tîm y rhaglen yn Wrecsam. Y nod yw bod mewn sefyllfa i ystyried prosiectau ym misoedd Chwefror/Mawrth. Cyn hir, bydd y cyfrifoldeb am y rhaglen yn trosglwyddo o'r Is-adran Materion Allanol ac Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) fel yr Awdurdod Rheoli dirprwyol